

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Safonau

Dyddiad: 24 Tachwedd 2016

Rhif Union: 01824 706204

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 2 RHAGFYR 2016** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2016 (copi ynghlwm).

5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU (Tudalennau 13 - 14)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

6 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 15 - 24)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Swyddog Monitro yn hysbysu'r pwyllgor am y materion a drafodwyd yng nghyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2016 yn Llangefni.

7 PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO (Tudalennau 25 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) ynglŷn â'r potensial i gynnwys cwynion gan swyddogion y cyngor am ymddygiad aelodau etholedig ym Mhrotocol Hunan Reoleiddio'r Cyngor.

8 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD RHIFYN 10 (Tudalennau 41 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn hysbysu'r aelodau o gyhoeddiadau diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

9 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cyngorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10.00am ar ddydd Gwener 10 Mawrth 2017 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

11 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000 (Tudalennau 55 - 56)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

AELODAETH

Aelodau Annibynnol:

Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs Paula White, Julia Hughes a/ac Anne

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:

Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:

Y Cynghorydd Barry Mellor

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Gwener, 16 Medi 2016 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol Ian Trigger (Cadeirydd), Paula White, Julia Hughes a'r Cynghorwyr Barry Mellor a David E. Jones

HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelod Annibynnol Anne Mellor

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Cododd y Cadeirydd y mater canlynol ond nododd nad oedd yn fater brys.

Yn dilyn cyfarfod gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Nick Bennett, mynegodd y Cadeirydd bryder ynglŷn â nifer y cwynion a wrthodwyd gan y teimlai y gallai rhai cwynion gael eu hatgyfeirio at y Pwyllgorau Safonau. Y rheswm dros hynny yw pe bai aelod o'r cyhoedd yn cyflwyno cwyn i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a bod yr ymateb yn negyddol yna gallai'r achwynydd brofi ymdeimlad o anghydfod.

Roedd yr Ombwdsmon yn mynychu cyfarfod yn Llangefni ddydd Llun 17 Hydref am 10.30am gyda'r Fforwm Safonau i ddilyn. Eglurodd yr Is-gadeirydd, yn anffodus, ni allai fynychu'r digwyddiad gan y byddai ar ei gwyliau. Mynegodd yr Aelod Annibynnol, Julia Hughes, ddiddordeb mewn mynychu'r cyfarfod ond byddai'n cadarnhau gyda'r Swyddog Monitro ar ôl gwirio ei hamserlen.

Mae'r Ombwdsmon wedi gofyn i'r holl Awdurdodau Lleol anfon unrhyw gwestiynau ato ymlaen llaw.

Gofynnodd y Cadeirydd bod y canlynol yn cael ei gynnwys fel un o'r cwestiynau a anfonir at yr Ombwdsmon "a fyddai'r Ombwdsmon yn ystyried caniatáu i'r Pwyllgor Safonau ddelio â mwy o honiadau o fynd yn groes i'r Cod Ymddygiad"?

Cododd y Cadeirydd y mater o gyflwyno isafswm safonau ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a gofynnodd i'r Swyddog Monitro a fyddai hyn yn eitem briodol i'w chyflwyno yn y Fforwm ar 17 Hydref.

Eglurodd y Swyddog Monitro efallai bod hyn y tu hwnt i friff y Fforwm. Eglurodd hefyd fod hyfforddiant ar gael ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Cydnabu'r Cadeirydd yr hyfforddiant rhagorol a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n anfon y cwestiynau gan Sir Ddinbych a'r Awdurdodau Lleol eraill i Aelodau'r Pwyllgor Safonau er gwybodaeth.

GW I WEITHREDU

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2016.

Canmolodd y Cadeirydd safon uchel y cofnodion.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill, 2016 fel cofnod cywir.

5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i'w ystyried a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:-

2 Rhagfyr 2016

- Adroddiad dilynol yn dilyn cyfarfod 17 Hydref 2016 gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Fforwm Safonau.
- Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru – (heb ei gadarnhau)

10 Mawrth 2017

- Paratoi Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y Cyngor Llawn.
- Hyfforddiant

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro i Aelodau'r Pwyllgor fod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn ddogfen fyw ac y gellir ei addasu ac ychwanegu eitemau ar unrhyw adeg.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar ychwanegu'r uchod, bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2015/16

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) i roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Safonau i ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Bob blwyddyn, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau ei swyddfa wrth ymdrin â chwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae gan swyddfa'r Ombwdsmon ddwy brif rôl:-

- Ymchwilio i gwynion am gamweinyddu gan gyrff cyhoeddus.
- Ymchwilio i gwynion yn ymwneud â honiadau o fynd yn groes i God Ymddygiad gan aelodau etholedig y Cynghorau Unedol, Dinas, Tref a Chymuned. Byddai hyn yn fwy perthnasol i'r Pwyllgor Safonau.

Yn yr adroddiad, croesawodd yr Ombwdsmon argymhellion Pwyllgor Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylid cyflwyno deddfwriaeth yn y Cynulliad presennol i wella pwerau presennol swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Dengys yr adroddiad fod cyfanswm nifer y cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon yn erbyn cyrff gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth wedi gostwng ar y cyfan. O fewn y gostyngiad hwnnw, bu cynnydd yn nifer y cwynion ynglŷn â'r Gwasanaeth lechyd.

Roedd dadansoddiad yr ystadegau cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad yn dangos 274 o gwynion yn 2015/16 o gymharu â 231 yn 2014/15, cynnydd o 19%. Roedd dadansoddiad pellach yn dangos mai prif ffactor y cynnydd oedd cynnydd o 49% yn nifer y cwynion sy'n deillio o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned o 106 yn 2014/15 i 158 yn 2015/16.

Yn ystod trafodaeth fanwl codwyd y pwyntiau canlynol:

- Nodwyd pe bai Cynghorydd sir yn cyflwyno cwyn yn erbyn Cynghorydd sir arall yn eu Hawdurdod Lleol eu hunain, yna byddai'r Ombwdsmon yn disgwyl y cyflwynir y cwyn i'r Swyddog Monitro fel cam cyntaf er mwyn datrys y mater yn lleol heb gynnwys yr Ombwdsmon.
- Roedd Gweithdrefn Ddatrys Lleol ar waith ar gyfer troseddwy'r ailadroddus. Os mai canfyddiad y Swyddog o ymddygiad yr Aelod oedd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu bwlio, yna holwyd a fyddai'r Weithdrefn Ddatrys Lleol yn cael ei hymestyn i ddelio â'r mater. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod ef a'r Dirprwy Swyddog Monitro yn asesu cyfreithlondeb y Weithdrefn. Roedd y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro yn gwirio pa weithdrefnau sydd gan Awdurdodau Lleol eraill ar waith. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr, gyda'r wybodaeth berthnasol. ***GW I WEITHREDU***
- Holodd y Cadeirydd sut y gall pobl gysylltu â'r Ombwdsmon ac ymhle y gellir canfod gwybodaeth am ei swyddfa. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n ymchwilio hyn ac yn adrodd yn ôl. ***GW I WEITHREDU***

Yn dilyn trafodaeth bellach:

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2015/16.

7 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i hysbysu aelodau'r Pwyllgor Safonau o rifynnau diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

Eglurwyd bod Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys y Llyfr Achos ar gyfer cyfnod mis Ionawr 2016 hyd at fis Mawrth 2016. Roedd Atodiad 2 yn cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2016 hyd at fis Mehefin 2016.

Roedd manylion y cwynion a archwiliwyd yn ystod y cyfnodau hyn wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a'u crynhoi gan y Swyddog Monitro.

Cafwyd trafodaeth a chytunwyd y byddai'r Swyddog Monitro yn ysgrifennu at holl Gyngorau Dinas, Tref a Chymuned yn egluro pwysigrwydd datgan cysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu. Ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a Chynllunio roedd "sgrïpt" oedd yn cael ei ddarllen ar ddechrau'r cyfarfod i sicrhau bod Aelodau yn deall ystyr datgan cysylltiad. Byddai'r "sgrïpt" yn cael ei anfon at yr holl Gyngorau Dinas, Tref a Chymuned er gwybodaeth. **GW I WEITHREDU**

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.

8 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Cadarnhaodd yr Aelod Annibynnol, Julia Hughes, ei bod wedi mynychu Cyngor Cymuned Llantysilio ar 7 Mawrth 2016 ac wedi mynychu'r Pwyllgor Cynllunio fel siaradwr cyhoeddus yn erbyn cais ar 27 Gorffennaf 2016.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Annibynnol am ei hadborth a oedd wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n casglu rhestr o Gyngorau Dinas, Tref a Chymuned yr ymwelwyd â nhw dros y 3 blynedd diwethaf ac yn dosbarthu'r rhestr i'r aelodau cyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2016. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n ymgynghori â'r Dirprwy Swyddog Monitro ac y byddai rhestr wedi'i ddiweddarau'n cael ei ddosbarthu. **GW I WEITHREDU**

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad llafar oddi wrth yr Aelod Annibynnol a fu'n mynychu cyfarfodydd.

9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nododd yr Aelodau bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi'i drefnu ar gyfer 10.00am ddydd Gwener 2 Rhagfyr 2016 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

10 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad cyfrinachol (a ddisbarthwyd yn flaenorol) i roi trosolwg i'r Aelodau o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roedd y Pwyllgor Safonau eisoes wedi gofyn am gael gwybod yn rheolaidd am lefel y cwynion a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd y tablau yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o gwynion a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2014.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

SYLWER BOD Y RHAGLEN I'W DOSBARTHU 1 WYTHNOS CYN Y CYFARFOD

DYDDIAD Y CYFARFOD	EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD	AWDUR YR ADRODDIAD
10 Mawrth 2017	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd	Amh
	Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych	Gary Williams (Swyddog Monitro)
	Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau	Gary Williams (Swyddog Monitro)
	Hygyrchedd Gwybodaeth gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned – Adolygiad Blynyddol	Aelod Annibynnol Julia Hughes
	Paratoi Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y Cyngor Llawn.	Gary Williams (Swyddog Monitro)
	Hyfforddiant	Gary Williams (Swyddog Monitro)
	Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru	Gary Williams (Swyddog Monitro)
30 Mehefin 2017	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd	Amh
	Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych	Gary Williams (Swyddog Monitro)
	Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau	Gary Williams (Swyddog Monitro)
22 Medi 2017	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd	Amh
	Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych	Gary Williams (Swyddog Monitro)
	Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau	Gary Williams (Swyddog Monitro)

24 Tachwedd 2017	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd	Amh.
	Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych	Gary Williams (Swyddog Monitro)
	Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau	Gary Williams (Swyddog Monitro)

Diweddariwyd 18/11/2016 - KEJ

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Rhagfyr 2016
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl:	Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adrodd yn ymwneud â chyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru (y Fforwm) a gynhaliwyd yn Llangefni ar 17 Hydref 2016 ac a fynychwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I hysbysu'r Pwyllgor ynglŷn â'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Fforwm.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad.

- 4.1 Roedd y Fforwm yn falch fod yr Ombwdsmon, Mr Nick Bennett, yn bresennol ac fe ddarparodd gyflwyniad ac atebodd gwestiynau a anfonwyd ato cyn y cyfarfod. Mae'r cwestiynau ynghyd â nodiadau'r atebion a roddwyd yn Atodiad 1.
- 4.2 Yn ystod ei gyflwyniad, pwysleisiodd yr Ombwdsmon ei gefnogaeth ar gyfer datrysiad lleol y cwynion a wnaed gan aelodau etholedig yn erbyn ei gilydd a mynegodd y byddai'n ddefnyddiol ymestyn y broses i Gynghorau Tref, Dinas a Chymuned. Pwysleisiodd nad oedd yn cyflwyno unrhyw fath o orchymyn mewn perthynas â hyn ac mai mater ar gyfer pwyllgorau safonau lleol a'r Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned yn eu hardaloedd eu hunain fyddai hyn. Dywedodd ei fod yn ymwybodol fod Un Llais Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith gyda rhai cynghorau tref a chymuned ar y testun hwn.
- 4.3 Croesawodd yr Ombwdsmon y gostyngiad yn nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Chynghorwyr Sir ar draws Cymru yr oedd modd iddo adrodd amdano yn ei adroddiad blynyddol. Fe gyfeiriodd at y cynnydd yn nifer y cwynion sy'n ymwneud â chynghorwyr tref a chymuned ac eglurodd bod tri chynghor tref a chymuned yn gyfrifol am y cynnydd, gan eu bod yn gyfrifol am hanner cant o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod. Y rhain oedd Glyn-nedd, Abertyleri, a Chaergybi.

- 4.4 Nododd yr Ombwdsmon bod y rhan fwyaf o'r cwynion wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol a bod y niferoedd a atgyfeiriwyd at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu yn isel iawn, a oedd yn achos dathlu yn ei farn ef.
- 4.5 Mae'r mater o reoli ei adnoddau ar draws yr amrywiol feysydd y mae'n eu harchwilio yn parhau i fod yn bwysig iawn i'r Ombwdsmon. Bu newid yn y defnydd o adnoddau yn ei swyddfa. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd cwynion o'r sector iechyd yn cyfrif ar gyfer 15% o gyfanswm y cwynion a atgyfeiriwyd i'w swyddfa. Mae'r ffigur yn 35% yn awr. Nododd yr Ombwdsmon fod 76% o'i adnoddau yn awr yn cael eu defnyddio i ystyried cwynion iechyd. Yn y cyd-destun hwn ailadroddodd yr Ombwdsmon y neges a roddodd yn flaenorol, ni fydd yn defnyddio ei bwerau i archwilio cwynion lefel isel neu faterion "gwirion" mewn perthynas ag aelodau etholedig ond yn hytrach bydd yn cynnal adnoddau i ddelio â'r tor-amodau mwyaf difrifol. Bydd yr Ombwdsmon bob amser yn archwilio materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio pŵer, bwlio a llygredigaeth.
- 4.6 Adlewyrchodd yr Ombwdsmon ar weithrediad ei brawf lles y cyhoedd flwyddyn ar ôl ei gyflwyno. Cadarnhaodd mai'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth gymhwyso ei brawf yw, difrifoldeb y tor-amod honedig, a oedd budd personol wedi'i geisio'n fwriadol, camddefnyddio safle ag ymddiriedaeth gan achosi niwed, gwahaniaethu ac unrhyw ymddygiad tebyg blaenorol ar ran yr aelod perthnasol.
- 4.7 Yn dilyn eitem yr Ombwdsmon, aeth y Fforwm yn ei flaen i ystyried gweithrediad y Fforwm yn y dyfodol. Ni chafwyd cyfarfod y Fforwm am beth amser a chytunwyd ei fod yn parhau i fod yn offer defnyddiol ar gyfer dysgu a rhannu arferion. Cytunwyd y byddai'r Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn y dyfodol. Bydd y Fforwm yn cyfarfod mewn awdurdod gwahanol bob tro mewn cylchdro. Bydd yr awdurdod cynnal yn cadeirio'r cyfarfod ac yn gwneud yr holl drefniadau gweinyddol gofynnol. Bydd Swyddog Monitro'r awdurdod cynnal bob amser yn bresennol. Bydd Sir Ddinbych yn cynnal y cyfarfod nesaf yn y gwanwyn yn 2017.
- 4.8 Yna ystyriodd y Fforwm fater ynglŷn â chwblhau cofrestr cysylltiadau gan aelodau yn ddwyieithog a'r materion technegol sydd wedi codi mewn rhai ardaloedd. Cytunwyd y byddai pob awdurdod yn gwirio'r sefyllfa yn eu hawdurdod eu hunain. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn ag argaeledd hyfforddiant cyfryngu ar gyfer aelodau pwyllgorau safonau a all fod yn rhan o'r gweithdrefnau datrysiaid lleol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno yn unrhyw le arall.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

Does dim goblygiadau ariannol uniongyrchol yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud Penderfyniad

Does dim angen gwneud penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1

NORTH WALES STANDARDS COMMITTEE FORUM 17 OCTOBER 2016 QUESTIONS FOR THE OMBUDSMAN

Arising from the presentation topic:

NWFRS:

- 1. Local resolution protocol. Is it toothless because it is not compulsory and because it cannot apply sanctions?**

The Ombudsman said that the widespread adoption of local resolution procedures was a welcome development.

These provide an important mechanism for resolving issues before relationships get worse and protect the reputation of the organisation by keeping matters such as these in house. He felt it important that these procedures should not focus on sanction.

- 2. What is the future for local resolution protocols for town and community councils? Will it be limited to those who have powers of competency/additional duties under the Future Generations and Wellbeing Act 2015?**

The Ombudsman said that he didn't know what impact changes to local government would have and that he was interested to see what future plans may be for local government generally. He was pleased that One Voice Wales had put together a draft model process and, although he understood that not all local councils were members of One Voice Wales, he hoped that they could all use the draft model if they wished to.

- 3. Conflict of interests for Monitoring Officers and Standards Committees arising from Local Resolution Protocols and then dealing with any subsequent referrals from the Ombudsman.**

The question of whether a conflict of interest arises is a professional judgement to be made by the individual officer. The 2016 Regulations allow for the creation of Joint Standards Committees or for the referral of cases to another authority if the circumstances are such that a Standards Committee feels unable to hear a particular case.

Parc Cenedlaethol Eryri:

- 4. There appears to be a reduction in the number of cases before the Adjudication Panel for Wales. Is this a direct result of local resolution? Or does the Ombudsman consider that the introduction of the public interest threshold test has affected the number of cases?**

The Ombudsman didn't think that the public interest test has affected the number of cases referred to the Adjudication Panel. This has always been a small number as it is reserved for more serious cases. He expects that if anything the public interest test may cause an increase in the number of cases referred to the Panel as his office will be concentrating on the most serious cases.

- 5. Is the Ombudsman considering offering or arranging mediation training for Monitoring Officers and the members of the various Standards Committee in light of the requirement for more to be done by way of local resolution? What is the role of the Standards Committee in relation to the Ombudsman's comment in the amended guidance, published July 2016, that "I am supportive of this (local resolution process) extending to cover community councils" (page 8)?**

The Ombudsman has no resources to offer to support training in this area and had nothing to add to his previous comments.

- 6. If the Ombudsman is considering that a local resolution process should be extended to include community councils too, will the Ombudsman provide a standard Local Resolution Protocol or template so as to ensure all members are treated fairly and consistently?**

The Ombudsman considered that a model protocol is important as it provides a fair and consistent process. He understands that One Voice Wales have produced a model and doesn't consider that there is a need for him to produce another one.

Other general questions:

Anglesey:

- 7. How do you see role of community councils when some have significant responsibilities yet the variance in clerks' time varies from full time staff to 10 hours a month and skill level varies considerably and some don't even want a computer.**

The Ombudsman said that this wasn't a question for him. He had however been a member of the Williams Commission which had considered issues relating to the future of Town City and Community Councils. There is a huge variation in the size of these councils with the largest, Barry, having a population of circa 60,000 which was not much less than a small unitary authority, down to some very small populations in rural areas. He would wait and see what the Government's plans are.

- 8. Why do cases take so long from the complaint being reported to conclusion?**

The Ombudsman believed that the speed of investigations will depend on the number and nature of allegations. He is aware that "slow justice can be no justice" He is also aware of the burden placed on those who are under investigation.

The proportion of investigations now completed within 9 months improved last year to 84% compared with 76% in the previous year.

The Ombudsman's office now has a more active case management system. They would like to see this figure rise to 100% and do discuss internally how to improve this performance. It is frustrating for all involved, including the Ombudsman. A quarter of all complaints received by his office are generated by 5 or 6 public bodies. All of these bodies have improvement officers and it is to be hoped that the same mistakes are not being made and generating further complaints that his office has to investigate. His office has specialist officers in areas such as planning, health etc. and the Code of Conduct. The specialist officer in respect of Code of Conduct complaints is Annie Ginwalla.

9. Is the Ombudsman considering preparing a Sanction Guidance specifically tailored to the needs and powers of Standards Committees?

The Ombudsman has no plans to do this. The issue of sanction is an issue for Standards Committees. He is aware of guidance on sanction issued by the Adjudication Panel for Wales which committees may find useful.

Gwynedd:

10. Clarity around the new SI. I.e. suspension only within current term of office. Doesn't this make it pointless when a member can commit a serious breach of the Code, and if the timing is right, there will be no consequences? Would the expectation of the Ombudsman be that Standards Committees or Case Tribunals would still proceed and issue a censure only, making it clear that a suspension or disqualification would have followed had it been available? Is it really wasting costs to investigate, prosecute and adjudicate on something like this and isn't it unfair to elected members that some will be facing suspension because of a breach that takes place early on in their term of office and others will "get away with it"?

The Ombudsman accepted that this was a theoretical possibility. He pointed out that any system could be subject to some level of gaming.

He added that the issue related only to a very small number of matters that were referred to Committees or the Adjudication Panel.

The Ombudsman supported the amendment as it brought the issue into line with rules that already existed for the Adjudication Panel.

11. Are we going down the route of the England model? Would it be better for the Ombudsman to just focus on public service delivery, rather than the conduct of elected members, given scarce resources?

The Ombudsman was clear that we were not going down the English model. If that was the case, he would have lost the powers that he has and his office would not be doing the work that it is.

The majority of work done by his office is related to public service delivery. He feels that their work in respect of the Code of Conduct is important as it gives the public some assurance that serious issues will be dealt with. There will be a new Act

regarding the Ombudsman and some academics have suggested during the consultation that the office should not deal with conduct issues, however, nobody else has brought the issue up. The former Minister who began the consultation supported the existence of code related powers for the Ombudsman. Ultimately it will be for the Assembly to determine the content of the new Act.

Conwy:

12. The role of the Standards Committee and local Monitoring Officers in relation to town and community councils, particularly in light of the new draft Guidance. Is there an expectation that Monitoring Officers lodge complaints and / or is there an expectation that Standards Committees and Monitoring Officers now undertake local resolution at Town and Community Council level?

The Ombudsman confirmed that it would be an option for a breach to be referred to the monitoring officer. He was aware that the One Voice Wales model provided for the Clerk to play a vital role in the local resolution of complaints.

13. Is there, or is there intended to be, an archive library of standards decisions, for consistency, rather than just the APW Case Tribunals?

The Ombudsman referred to the introduction of his Code of Conduct Casebook which provides information on cases that have been considered. His office is working on a database of historic decisions which pre date the introduction of the Casebook.

Wrexham:

14. It is a statutory requirement for Town and Community Councils to have websites and for their registers of interests to be published on them. What steps will the Ombudsman take if Town and Community Councils fail to conform to this requirement?

The Ombudsman said that this was not an issue to be considered under the Code but that it may amount to maladministration. The Ombudsman does not yet have proactive powers and would need a complaint from a member of the public before he could investigate a complaint about this. It was pointed out to the Ombudsman that a member of the public would not necessarily be aware that they had a cause for complaint. The Ombudsman's response was that awareness was on the increase. He added that in a maladministration complaint there had to be demonstrated an element of injustice.

15. What is the impact on the Ombudsman's office timescales now that it is receiving / investigating fewer cases?

In overall terms the Ombudsman had a 10% increase in complaints this year. He referred again to the 84% of Code complaints which were completed within 9 months. He said that he hoped that they could continue this improvement in turnaround times.

He said that in maladministration cases the role of improvement officers was to learn lessons from cases and reduce the repetition of mistakes. He wanted front line staff to be empowered to resolve complaints informally and for there to be clear escalation processes. This may not lead to a decrease in the number of complaints but may reduce the number that are upheld. In public bodies that have improvement officers the number of upheld complaints has reduced even when the total number of complaints received has gone up.

- 16. The legislation in relation to the new ground for dispensation [paragraph 4 (3) of The Local Government (Standards Committees, Investigations, Dispensations and Referral) (Wales) (Amendment) Regulations 2016] details that a dispensation may be granted if “it appears to the committee to be otherwise appropriate to grant a dispensation”. However, the amended guidance published by the Ombudsman’s office details that dispensation can be granted “if appropriate in all circumstances, where it was not otherwise possible, to make reasonable adjustments to accommodate a person’s disability”. Please confirm this is the “disability” created by the prejudicial interest; the legislation seems to be going further than what is included in the guidance?**

This was an issue arising out of a consultation exercise and arose out of a particular situation. The language used was to try and find a practical solution in respect of a particular member who had difficulty in leaving the chamber when a matter was under discussion.

Flintshire:

- 17. Given the comments in guidance published by your office suggesting that local resolution procedures might help to reduce the number of complaints received from town and community councillors how had you envisaged that being resourced?**
[The paragraph from the guidance is as follows -
“Most local authorities across Wales have implemented local resolution procedures to deal with low level complaints which are made by a member against a fellow member. These arrangements are proving to be effective at resolving many of these kinds of complaints. I am supportive of this extending to cover community councils.”

This is not something that the Ombudsman can help resource. He said that the One Voice Wales model and guidance may be useful. It was put to the Ombudsman that successful introduction of local resolution at this level may reduce the number of complaints and thereby reduce the demand on his resources in the future. The Ombudsman repeated that he had no resource to offer but was supportive of resources being used by others for this sort of training.

18. Whilst the annual report is welcome would it be possible to include greater analysis of the trends and any lessons that might come from the statistics, e.g. is there a rise in cases of disrespect or has there been a fall in allegations of failure to declare interests, in order to help reveal any future work that might be needed by Standards Committees or to demonstrate the success of work that has already been undertaken

The Ombudsman said that he was happy to do this. The office is currently looking at the Annual Report and new ways of presenting data. They are happy to consider new and different ways of doing this. He has shared feedback he has received with the officers who prepare the report.

Denbighshire:

19. There is a concern that the public may lose confidence in the enforcement of the Code of Conduct if they feel that legitimate complaints have been considered not worthy of investigation. Would the Ombudsman consider referring cases that he has determined not to investigate for local investigation?

The Ombudsman said that he had offered this in the past but that the take up had not been high. He acknowledged that there had been a concern among some Monitoring Officers about the level of demand on their resource to do this.

He felt that most people would take comfort from the focus on the public interest. He acknowledged that some people may feel ignored but the public interest is encapsulated in the Nolan Principles and it is evidence around that which drives him forward.

One of the factors to be taken into account is evidence of similar complaints being made previously. When asked how long complaints are kept on file he referred to a lot of retained knowledge within his office and that moving forward he would ensure that they kept a good feel for what was happening.

20. Does the Ombudsman consider that the setting of minimum standards and mandatory training for Clerks to Town, City and Community Councils would assist in the maintenance of high standards of conduct and the operation of Local Resolution Procedures in those Councils?

The Ombudsman said that he feels that this would be highly beneficial. Training was not something he could resource but he would support by attending conferences and promoting the issues.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Rhagfyr 2016
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl:	Protocol Hunan Reoleiddio

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Phrotocol Hunan Reoleiddio (y Protocol) y Cyngor .

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I ymateb i gais y Pwyllgor ynglŷn â'r posibilrwydd o ymestyn y Protocol i gynnwys cwynion gan swyddogion y cyngor mewn perthynas ag ymddygiad aelodau etholedig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn ystyried a yw'n dymuno argymhell newidiadau i'r Protocol.

4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Ers 2012 mae gan y cyngor weithdrefn datrysiad lleol ar gyfer anghydfod neu gwynion rhwng aelodau etholedig. Mae copi o'r Protocol wedi'i amgáu fel Atodiad 1.

4.2 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi bod yn eiriolydd brwd ar gyfer gweithdrefnau datrysiad lleol megis y Protocol ac mae'n credu eu bod yn lleddfyr pwysau ar adnoddau ei swyddfa drwy leihau nifer y cwynion lefel isel y mae'n rhaid iddynt ddelio â nhw. Mae gweithdrefnau o'r fath hefyd yn darparu datrysiad cyflymach i anghydfod neu gwyn nag archwiliad ffurfiol yr Ombwdsmon ac felly'n atal perthnasau difrodedig rhag cael eu chwalu'n llwyr.

4.3 Mewn cyfarfod diweddar, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor bod gwaith yn cael ei gyflawni i benderfynu a fyddai modd atgyfeirio pryderon a godwyd gan swyddogion ynglŷn ag ymddygiad cynghorydd tuag atynt i'w hystyried o dan y broses hon.

4.4 Yn ogystal â'r Cod Ymddygiad mae gan y Cyngor Broctocol ar gyfer Perthnasau Aelod/Swyddog sydd ynghlwm fel Atodiad 2. Mae'r ddogfen hon yn nodi beth y gall aelodau a swyddogion ei ddisgwyl oddi wrth ei gilydd. Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at ddatrysiad lleol pryderon ac awgrymir y gellir diwygio'r Protocol Hunan Reoleiddio er mwyn cynnwys pryderon o'r fath.

4.5 Mae ymchwil a gynhaliwyd gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn awgrymu darlun cymysg mewn perthynas â'r defnydd o weithdrefnau datrysiad lleol ar gyfer materion a godwyd gan swyddogion. Mae gan y mwyafrif o awdurdodau weithdrefnau datrysiad lleol sy'n gyfyngedig i gwynion gan aelod ynglŷn ag aelod arall. Mae rhai awdurdodau sy'n caniatáu i swyddogion godi pryderon o dan eu proses datrysiad lleol. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fo'r broses yn caniatáu i swyddogion godi cwynion o'r fath, mae'r achosion o wneud hynny'n brin iawn. Mae mwyafrif y materion a godwyd gan swyddogion yn cael eu trin yn anffurfiol y tu allan i'r broses ffurfiol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno yn unrhyw le arall.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

Does dim goblygiadau ariannol uniongyrchol yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Does dim angen gwneud penderfyniad.

18.5 Members' Self Regulatory Protocol

General Principles

- To promote high standards of conduct and behaviour as a means of strengthening respect and trust among members. It is NOT intended to replace the Code of Conduct, rather it is intended to sit alongside the Code, enabling behaviour which may not reach the threshold to become a breach to be dealt with; and that which justifies a formal complaint to the Ombudsman.
- The protocol does not replace the Member-Officer Relations Protocol set out in the Council's Constitution.
- Members will make all reasonable attempts to resolve disputes through agreed internal processes subject to their obligations under the Members' Code of Conduct.
- Referral to external regulators will become a last resort subject to Members' obligations under the Code of Conduct.
- Members will avoid personal confrontation in any public forum, especially full Council and through the media
- These commitments will not stifle legitimate political debate or scrutiny
- Group discipline will become the cornerstone of self-regulation with Group Leaders taking responsibility for their own members
- Group Leaders individually and collectively will work to ensure compliance with this protocol
- Members will commit to training and development in support of this protocol

Working to avoid problems

To minimise the number of instances of alleged breaches all Group Leaders have committed to:-

- **A Member Learning and Development Strategy** – to which they will seek to secure the commitment of their group members. All reasonable endeavours will be made to ensure that the Learning and Development Strategy identifies and responds to the needs of members.
- **Attending relevant Member training events** - in particular those relating to the Code of Conduct or probity courses within the scope of their role.
- **WLGA Charter** – The Council has been awarded the WLGA's Charter for Member Support and Development and supports its objectives. Group Leaders will seek to secure individual member commitment to training and keep this under review.

Role of Group Leaders

A complaint by a member relating to a member of the same group will be referred to the Group Leader. A complaint by a member concerning the activities of a member of a different political group will be discussed with the complainant's own Group Leader, who will then refer the issue to the Group Leader with responsibility for the member against whom the complaint is made.

Upon receiving a complaint, it is the role of Group Leaders to take responsibility for discipline within their groups. Group discipline should seek to be informal, resolved through face to face meetings. Group Leaders will need to retain some records but the process will not be "document heavy". The emphasis should be on training, education, mediation and conciliation.

When appropriate, a sanction such as removal from a committee or an outside body, may be used in extreme cases or after persistent breaches and the matter will be referred to the Public Services Ombudsman for Wales.

Prior to considering any sanction, or training, the relevant Group Leader may consult with a member of the Standards Committee in conjunction with the Monitoring Officer or Deputy Monitoring Officer. The Standards Committee will seek to ensure fairness and consistency in the discipline imposed within each Group.

At the next available Group Leaders' meeting any issue of discipline which has been referred to a Group Leader will be discussed with the Group and with the objective of seeking to ensure that fair and consistent sanctions are applied.

Where the complaint relates to the Group Leader themselves, the Chair will be requested to consider the complaint, just as with unaffiliated members.

Unaffiliated Members

As far as unaffiliated members are concerned, the Chair of the Council will fulfil the role of Group Leader. Concerns regarding the conduct of an unaffiliated member should be referred to the Chair who will apply the same principles and standards as those of the Group Leaders in terms of training/mediation/conciliation. In the case of persistent breaches the matter shall be referred to the Ombudsman by the Monitoring Officer or in his/her absence the Deputy Monitoring Officer.


Persistent Breaches

In the case of persistent breaches, or areas where the Group Leaders have concerns that the conduct of an individual member or members is damaging to relations between political groups or to the reputation of the Council, then the Group Leaders will meet with the Chief Executive Officer and the Monitoring Officer to agree a way forward. Consideration will be given to joint references to the Ombudsman, by the Group Leaders, for persistent low level breaches.

Standards Committee

- Owing to any potential issues of conflict, any involvement will include no more than one independent member of the Standards Committee. This will be subject to a rotational basis and in accordance with availability.
- The Standards Committee Members will play a supporting/advisory role to the Group Leaders. This process will be initiated at the request of the Group Leader, in a particular case.
- Such meetings will be private and informal.
